# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**4/11/25**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Alwyn Roberts (cadeirydd), Llinos Edwards, Arwel Ll Jones, Lis Puw, Heledd Jones, Alwyn Jones, Euros Roberts, Beryl Griffiths, Rhodri Jones, Dewi Jones a Huw Roberts.
**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3249 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Alwyn M Roberts ac fe gyfeiriodd at lwyddiant diweddar Clwb Ffermwyr Ieuainc Glannau Tegid ac at brysurdeb yr ardal wrth baratoi at yr Ŵyl Ddramâu.

**3250 Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

**3251 Datganiadau o fuddiant:** Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant.

**3252 Cofnodion Cyfarfod Hydref 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3253 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Adroddwyd fod Grŵp Cynefin wedi cysylltu i gadarnhau mai eu bwriad fyddai darparu dau eiddo Tŷ Gwynedd (un tŷ dwy lofft ac un tŷ tair llofft) gyda gweddill y tai yn gyfuniad o rent canolraddol a rhent cymdeithasol. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i gysylltu eto hefo Grŵp Cynefin i ail fynegi pryder y cyngor am raddfa'r datblygiad, ac i holi am y broses o ddynodi rhai o'r tai fel Tai Gwynedd. Cytunwyd y dylai'r datblygiad gael ei arwain gan angen a galw lleol, a bod y datblygiad arfaethedig o bosibl y mwyaf yn y pentref ers hanner canrif.

ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Adroddwyd fod y cabinet wedi ei osod, yn barod ar gyfer comisiynu'r deffib. Cytunwyd i drefnu sesiwn hyfforddiant i'r ardalwyr ar y defnydd o'r offer.

iii. Cerrig Beddi Mynwent yr Eglwys: Derbyniwyd arweiniad gan NALC ar y broses o drosglwyddo tir i gorff arall am bris llai na phris y farchnad. Nodwyd fod hawliau i wneud hyn os gellir dangos buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i'r trigolion. Nodwyd hefyd fod angen prisiad ar y tir er mwyn gofalu ei fod o dan y trothwy, ac fe gytunwyd i symud ymlaen i gael prisiad.

iv. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Cafwyd diweddariad ar y gwaith o greu Llwybrau Treftadaeth i'r ardal, a nodwyd fod bwriad i greu 3 taith dreftadaeth. Nodwyd y bydd Pwyllgor Datblygu'r Cyngor yn parhau gyda'r gwaith yma.

v. Un Llais Cymru – Cyfarfod Blynyddol Ardal Meirionnydd: Cafwyd adroddiad gan y Cyng Lis Puw, a dywedodd fod Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri, Jonathan Cawley wedi rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod, pryd y nododd bwysigrwydd ymateb cynghorau cymuned i geisiadau cynllunio, gan nodi ei fod yn barod i ymweld a gwahanol gynghorau unigol os oes angen.

**3254 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y nodwyd:

- Fod bwriad gan Gyngor Gwynedd i wneud gwelliannau i balmentydd y pentref.
- Fod trefniadau mewn llaw i dorri coeden rhwng Caergai a'r Lôn.
- Fod gwelliannau ar y gweill i safle ailgylchu ger Weirglodd Wen ac Erw Fron.
- Nad yw'r gwaith o osod golau ger y Gilfach Goffa wedi ei gwblhau eto.
- Ei fod mewn trafodaethau gyda NMWTRA ynglŷn â'r graean ar wely'r Afon Lliw.
- Fod palmentydd y pentref yn llithrig yn dilyn cwymp y dail, a bod angen gwneud trefniadau i'w clirio.
- Fod bwlch yn y gwrych ar gen y Groesffordd angen sylw.

**3255 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Nodwyd y bydd y pwyllgor yn parhau i roi sylw i'r prosiect Enwau Lleoedd a'r Llwybrau Treftadaeth.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod angen galw cyfarfod o'r is bwyllgor er mwyn ystyried materion cynnal a chadw a gofalu am y fynwent.
3. Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod gwaith amgylcheddol ger Ysgol O M Edwards ar fin cychwyn, ac hefyd y bydd angen i'r pwyllgor greu Adroddiad Bioamrywiaeth erbyn diwedd y flwyddyn.
4. Nadolig: Adroddwyd fod trefniadau mewn llaw i archebu Coeden Nadolig ac i drefnu ymweliad Sion Corn.
5. Asedau: Adroddwyd fod meinciau'r pentref wedi eu cadw dros y gaeaf, a bod gweddillion hysbysfwrdd y Llan wedi eu clirio. Cytunwyd i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at waith angenrheidiol ar Loches Bws y Llan.
6. Cyllid: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o'r is bwyllgor ar Dachwedd 4ydd, pryd y rhoddwyd sylw i gyllidebau'r cyngor ac i brosiectau datblygu'r cyngor.
7. Gefeillio: Adroddwyd fod neges wedi ei hanfon i gyfeillion ardal y Gaiman trwy gyfrwng ymweliad diweddar Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

**3256 Materion Ariannol:** Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Cytundeb glanhau y toiledau.
- Anfoneb CCF am nwyddau glanhau'r toiledau.
- Anfoneb Mantell Gwynedd am brosesu cyflogau'r cyngor.
- Anfoneb Sion Jones am dorri gwaith y Fynwent Newydd.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Hydref yn £80.48

**3257 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod cyfarfod blynyddol y fenter am 2024/2025 wedi ei gynnal yn yr Ysgoldy nos Fercher Hydref 15fed, a bod Holiadur Defnyddwyr yr Eagles yn barod i'w ddosbarthu i'r aelodau.

3258 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod gwaith Gwedd 2 Canolfan Bro Tegid wedi cychwyn, a bod trefniadau'r Cynllun Trafnidiaeth Cymunedol yn dod at ei gilydd.

3259 **Materion cynllunio:** Derbyniwyd cais cynllunio i greu adwy newydd ar Bont Lliw, hyn er mwyn creu cyswllt gyda Llwybr Tegid. Cytunwyd i gefnogi'r cais gan y bydd y datblygiad yn gwella diogelwch i gerddwyr ac yn annog cerdded a defnydd cyffredinol o'r ddau lwybr.

3260 **Gohebiaeth:**

i. Elusen Maurice Vaughan: Derbyniwyd adroddiad fod yr elusen yn y broses o brynu Capel a Thŷ Capel Cynllwyd, ac yn bwriadu cyflwyno cais am gyllid i raglen Perthyn i ariannu ffioedd proffesiynol y datblygiad. Cytunwyd i gefnogi'r datblygiad a'r cais gan y bydd yn dod a thŷ gwag yn ôl i ddefnydd lleol.
ii. Cyngor Gwynedd – Holiadur Cynghorau Cymuned. Gofynnwyd i'r clerc gwblhau'r holiadur ar ran y cyngor.
iii. Cyngor Gwynedd – Holiadur Strategaeth Gwastraff: Anogwyd yr aelodau i gwblhau'r holiadur.
iv. Un Llais Cymru – Protocol Datrysiadau Lleol: Nodwyd derbyn y wybodaeth.
v. Un llais Cymru – Rheoliadau Etholiadau Llywodraeth Leol: Nodwyd derbyn y wybodaeth.

3261 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:**

i) Trefniadau pacio ger Tŷ'n Ddôl: Yn dilyn trafodaeth yn yr Is bwyllgor Cyllid fe gytunwyd i gasglu gwybodaeth am berchenogaeth tir yn y rhan yma o'r pentre er mwyn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu mwy o leoedd parcio i'r trigolion.
ii) Fforwm Mynediad Meirionnydd: Cafwyd adroddiad gan y Cyng Huw Roberts ar gyfarfod diweddar o'r fforwm, pryd y trafodwyd materion grantiau busnes a datblygiad Coed y Brenin.
iii) Tynnwyd sylw at waith angenrheidiol ar wrychoedd ar ochr ffordd Cwm Cynllwyd.

3262 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 2/12/25 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.